**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**5 Chwefror 2026**

## RHAN 1 - TROSOLWG

### 1. Disgrifiad

1.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae’r Ddeddf, ynghyd â rheoliadau a chodau ymarfer a wneir oddi tani, yn sicrhau’r fframwaith statudol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru i gynorthwyo pobl o bob oed fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

1.2. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Gosod Ffioedd”) yn llywodraethu awdurdodau lleol o ran defnyddio eu disgresiwn i osod ffioedd, cyfraniadau, neu ad-daliadau am wasanaethau gofal a chymorth o dan Ran 4 (diwallu anghenion) a Rhan 5 (gosod ffioedd ac asesiadau ariannol) o’r Ddeddf.

1.3. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Asesiad Ariannol”) yn nodi’r ffordd y mae rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o adnoddau ariannol unigolyn er mwyn pennu ffi pan fo hynny’n briodol.

1.4. Amcan cyntaf y rheoliadau diwygio yw sicrhau newid i’r Rheoliadau Gosod Ffioedd i gymhwyso codiad i’r isafswm incwm y mae gan berson mewn cartref gofal preswyl hawl i'w gadw o’i incwm wythnosol net.

1.5. Yr ail amcan yw diwygio’r Rheoliadau Asesiad Ariannol i gyfarwyddo y caiff taliadau a wneir o dan adran 133(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 eu diystyru ar gyfer cyfrifo incwm neu gyfalaf wrth bennu ffi.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae’r pwerau perthnasol sy’n galluogi gwneud rheoliadau mewn perthynas â’r cyfraniad neu’r ad-daliad o daliadau uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth wedi eu cynnwys yn adrannau 50(1), 52(1) a 53(3) o’r Ddeddf.

3.2. Mae’r pwerau perthnasol sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o ran arfer y pŵer i osod ffioedd am ddarparu gofal a chymorth wedi eu cynnwys yn adrannau 61(1) a 66(3) o’r Ddeddf.

3.3. Mae’r pwerau perthnasol sy’n galluogi gwneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau ariannol ar gyfer pennu ffi am ddarparu gofal a chymorth wedi eu cynnwys yn adrannau 64(1) a 64(2)(b) o’r Ddeddf.

3.4. Mae'r rheoliadau diwygio yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd. Bwriedir iddynt ddod i rym ar yr un pryd â'r codiadau i bensiynau a budd-daliadau ar 6 Ebrill 2026.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Yn unol â'r Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i osod ffioedd am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth i oedolion, a darparu neu drefnu cymorth i ofalwyr (mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn gwahardd awdurdod lleol rhag gosod ffioedd am ofal a chymorth a ddarperir i ddiwallu anghenion plentyn). Mae ganddynt hefyd ddisgresiwn i osod cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol y maent yn eu darparu i berson i'w alluogi i drefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Mae hyn yn gymwys i ofal a chymorth yng nghartref y person, yn y gymuned, neu mewn gofal preswyl. Pan fo awdurdod yn dymuno arfer y disgresiwn hwn i osod ffi, cyfraniad neu ad-daliad, mae rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn llywodraethu'r trefniadau sy'n gymwys i hyn.

4.2. Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn llywodraethu dyfarniad awdurdodau lleol ynghylch y ffioedd a osodir am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth i oedolyn, neu gymorth i ofalwr, pan fônt yn defnyddio eu disgresiwn i osod ffioedd. Maent hefyd yn llywodraethu dyfarniad awdurdodau o ran cyfraniadau neu ad-daliadau i oedolyn sy'n cael taliadau uniongyrchol i sicrhau ei ofal a'i gymorth ei hun, neu i ofalwr sy'n sicrhau ei gymorth ei hun, pan fo awdurdodau yn defnyddio'u disgresiwn i osod y rhain.

4.3. Mae'r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn llywodraethu asesiad awdurdodau lleol o adnoddau ariannol person i dalu ffioedd am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr am gymorth).

4.4. Ers cyflwyno'r rheoliadau hyn yn 2016, cytunwyd ar nifer o newidiadau polisi a oedd yn gofyn am ddiwygiadau i'r canlynol:

4.4.1 Y Rheoliadau Gosod Ffioedd - Mae'r rheoliadau diwygio i weithredu'r newidiadau hynny fel a ganlyn:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2017;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018 a ddaeth i rym ar 9 Ebrill 2018;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2019;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) a Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiadau Amrywiol) 2020 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 a ddaeth i rym ar 12 Ebrill 2021;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a ddaeth i rym ar 11 Ebrill 2022;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2023;

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2024; a
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 a ddaeth i rym ar 7 Ebrill 2025.

4.4.2 <u>Y Rheoliadau Asesiad Ariannol</u> - Mae'r rheoliadau diwygio i weithredu'r newidiadau hynny fel a ganlyn:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2017;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2019;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a ddaeth i rym ar 11 Ebrill 2022;
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2023; a
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 a ddaeth i rym ar 7 Ebrill 2025.

4.5. Bydd y newidiadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn gwneud y canlynol:

4.5.1. Cynyddu, o £44.65 yr wythnos i £46.35 yr wythnos, lefel yr isafswm incwm a gymhwysir wrth osod ffioedd am ofal preswyl, neu wrth osod cyfraniad neu ad-daliad am daliadau uniongyrchol i sicrhau gofal preswyl. Gwneir hynny drwy ddiwygio rheoliadau 13 ac 28 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd. Yr isafswm incwm yw'r swm o arian y mae person sydd mewn gofal preswyl, ac sy'n cael cymorth ariannol gan ei awdurdod lleol, yn gallu ei gadw o'i incwm wythnosol net i'w wario ar eitemau personol fel y mynna. Caiff y swm ei adolygu'n flynyddol yn sgil codiadau wythnosol a gymhwysir i bensiynau y wladwriaeth a budd-daliadau lles y DU.

4.6. Bydd y newidiadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn gwneud y canlynol:

4.6.1. Cydnabod y taliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel digollediad am gamweinyddiad cyfiawnder o dan adran 133(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 neu unrhyw daliad arall a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Gyfiawnder, at y diben o ddigolledu person am gamweinyddiad cyfiawnder sy'n deillio o achosion troseddol. Mae taliad adran 133(1) yn gymwys pan fo person wedi ei euogfarnu o drosedd a phan gaiff ei euogfarn ei gwrthdroi wedi hynny, neu ei fod wedi cael pardwn ar y sail bod ffaith newydd neu ffaith newydd ei ddarganfod yn dangos y tu hwnt i amheuaeth resymol bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, a bod digollediad yn cael ei dalu am gamweinyddiad cyfiawnder i'r person sydd wedi dioddef cosb yn sgil yr euogfarn honno neu, os yw wedi marw, i'w gynrychiolwyr personol, oni bai bod peidio â datgelu'r ffaith anhysbys wedi ei phriodoli yn llawn neu'n rhannol i'r person a gafwyd yn euog.

4.6.2. Cyflawnir hyn drwy ddiwygio Atodlen 1 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm) ac Atodlen 2 (cyfalaf sydd i'w ddiystyru) i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol i gynnwys:

> "Unrhyw daliad a wneir i A o dan adran 133(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 fel digolledíad am gamweinyddiad cyfiawnder neu unrhyw daliad arall a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Gyfiawnder, at y diben o ddigolledu person am gamweinyddiad cyfiawnder sy'n deillio o achos troseddol."

4.7. Mae'n ofynnol i'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r Memorandwm Esboniadol hwn gyflwyno diweddariad i'r Rheoliadau Gosod Ffioedd i adlewyrchu swm o arian wedi ei godi sy'n gymwys i bobl sy'n cael cymorth a gofal cymdeithasol preswyl. Mae'n ofynnol hefyd cyflwyno diweddariad i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol i adlewyrchu cynllun cydnabyddiaeth ariannol newydd sydd wedi dod i rym ers diweddaru'r rheoliadau hyn ddiwethaf.

## 5. Ymgynghori

5.1. Nid yw'n ofynnol ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau Gosod Ffioedd. Yn wreiddiol, cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddor y newidiadau a wneir gan y rheoliadau diwygio i'r Rheoliadau Gosod Ffioedd rhwng 21 Rhagfyr 2016 a 25 Ionawr 2017. Nid yw'r newidiadau yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, eu diben yw diweddaru rheoliadau i adlewyrchu'r codiadau a gymhwysir i bensiynau y wladwriaeth a budd-daliadau. Yn sgil hynny, ni chynhelir ymgynghoriad yn flynyddol.

5.2. Nid yw'n ofynnol ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau Asesiad Ariannol. Gallai diwygiadau o ran y diystyriadau newydd sy'n deillio o newidiadau ym mholisi Llywodraeth y DU mewn meysydd nad ydynt wedi eu datganoli effeithio ar nifer bach o unigolion ac nid yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Dim ond addasiad technegol yw'r newidiadau i'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y rheoliadau yn adlewyrchu'n gywir y cynlluniau cymorth ariannol a nodir uchod i sicrhau bod dyfarniadau a roddir i unigolion yn cael eu diogelu rhag gosod ffioedd am ofal a chymorth.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Cyflwyniad

6.1. Caiff y newidiadau sy’n adlewyrchu diystyriadau newydd, neu addasiadau technegol i gyfradd yr Isafswm Incwm sy’n cael eu cyflwyno gan y rheoliadau diwygio eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

6.2. Bydd cyflwyno’r newidiadau newydd yn sicrhau bod y Rheoliadau Gosod Ffioedd a’r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn gyfredol ac yn gallu cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

## 7. Yr opsiynau

**YR ISAFSWM INCWM**

7.1. **Opsiynau a Manteision**

7.1.1. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y newidiadau hyn:

- Opsiwn 1 – “gwneud dim” a pheidio â gwneud y rheoliadau diwygio;
- Opsiwn 2 – “gwneud y rheoliadau diwygio” er mwyn cyflwyno newidiadau i’r Rheoliadau Gosod Ffioedd mewn perthynas â gosod ffioedd am ofal a chymorth. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

7.2. **Y cefndir**

7.2.1. Pan fo person mewn gofal preswyl, ac yn cael cymorth ariannol gan ei awdurdod lleol tuag at gostau ei ofal, mae’n ofynnol iddo gyfrannu’r rhan fwyaf o’i incwm wythnosol tuag at y costau hyn. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Gosod Ffioedd, rhaid i berson allu cadw swm o’i incwm i’w wario ar eitemau personol fel y mynna. Gelwir hyn yn isafswm incwm. Caiff lefel yr isafswm incwm ei hadolygu i ystyried cyfradd chwyddiant a chodiadau blynyddol i daliadau pensiwn y wladwriaeth a budd-daliadau lles y DU, sy’n sail i incwm wythnosol preswylwyr cartrefi gofal. Gan ystyried y ffactorau hyn, mae Gweinidogion yn cynnig cynyddu’r isafswm incwm o 6 Ebrill 2026 ymlaen o’i lefel bresennol, sef o £44.65 yr wythnos, i £46.35 yr wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i breswylwyr gadw cynnydd ar sail chwyddiant o’u hincwm i’w wario ar eitemau personol fel y mynnant.

Opsiwn 1 – gwneud dim

7.2.2. Mae’r opsiwn hwn yn cynnal lefel yr isafswm incwm ar £44.65 yr wythnos. O ganlyniad, bydd unrhyw gynnydd yn incwm wythnosol preswylydd o fis Ebrill 2026 ymlaen yn sgil y codiad yn ei daliadau pensiwn y wladwriaeth a’i fudd-daliadau lles o fantais i’w awdurdod lleol ar ffurf incwm ffioedd i dalu tuag at ei ofal.

Opsiwn 1 – gwneud dim – Costau

7.2.3. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau newydd i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Yn hytrach, byddai awdurdodau lleol yn cael hyd at oddeutu £7.1 miliwn y flwyddyn mewn cyfraniadau uwch gan y 16,144 o breswylwyr cartrefi gofal dros oedran pensiwn y wladwriaeth fel y'u cofnodwyd mewn data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 (nid oes data o'r fath wedi eu casglu ers hynny). Byddai hyn o ganlyniad i'r incwm uwch a fyddai gan breswylwyr yn sgil y codiadau yn swm pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn unig (£8.45 yr wythnos). Ni fyddai preswylwyr yn y sefyllfa hon yn cadw unrhyw faint o'r codiad pensiwn a gymhwysir.

7.2.4. Nodir bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar gynnydd i bensiwn sylfaenol y wladwriaeth ac nid i bensiwn newydd y wladwriaeth. Caiff person sy'n cyrraedd oedran pensiwn ar 6 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny hawlio pensiwn newydd y wladwriaeth. Gan fod cyfradd sylfaenol pensiwn newydd y wladwriaeth yn fwy na phensiwn sylfaenol blaenorol y wladwriaeth, mae'r cynnydd o 4.8% eleni hefyd yn uwch, sef £11.05 yr wythnos. Dengys y ffigurau o 2025, o'r 13.1 miliwn ledled y DU sy'n cael pensiwn y wladwriaeth, fod 4.7 miliwn (35.9%) yn cael pensiwn newydd y wladwriaeth. Mae'r un dosbarthiad canrannol hwn yn annhebygol o gael ei adlewyrchu o ran preswylwyr presennol cartrefi gofal yng Nghymru, gan fod y data mwyaf diweddar sydd ar gael yn dangos bod cyfran sylweddol o breswylwyr cartrefi gofal yng Nghymru yn debygol o fod yn 65 oed neu'n hŷn, gydag anghenion gofal cymwys.

7.2.5. Mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r data sydd ar gael sy'n sail i'r rhagamcanion hyn. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn seiliedig ar breswylwyr cartrefi gofal yng Nghymru sy'n cael pensiwn sylfaenol y wladwriaeth. Fodd bynnag, bydd cyfran o breswylwyr yn cael pensiwn newydd y wladwriaeth, a gall eraill fod o dan oedran pensiwn ac felly nid ydynt yn cael unrhyw bensiwn y wladwriaeth o gwbl. Roedd angen defnyddio ffigurau pensiwn sylfaenol y wladwriaeth fel meincnod oherwydd diffyg data mwy manwl a chyfredol ar gyfansoddiad preswylwyr cartrefi gofal. Mae'r dull hwn yn darparu sylfaen gyson a dibynadwy ar gyfer dadansoddi, er y dylid nodi y gall yr incwm gwirioneddol a ddaw i law awdurdodau lleol fod yn uwch, o ystyried bod y cynnydd i bensiwn newydd y wladwriaeth yn uwch na'r cynnydd i bensiwn sylfaenol y wladwriaeth. **Mae'r cafeatau data hyn yn gymwys i'r holl ffigurau dilynol a gyflwynir.**

Opsiwn 1 – gwneud dim - Manteision

7.2.6. Ni fyddai unrhyw fantais i breswylwyr cartrefi gofal sy'n cael cymorth gan eu hawdurdod lleol gan na fyddent yn gallu cadw unrhyw faint o'r cynnydd a gymhwysir i'w pensiwn y wladwriaeth ac ni fyddai'r rhai y cymhwysir codiadau i unrhyw fudd-dal lles y maent yn ei gael yn gweld unrhyw fantais ychwaith. Yn hytrach, byddai'r arian hwn yn cynyddu cyfraniadau wythnosol preswylwyr i awdurdodau lleol am gostau eu gofal, ac yn fantais felly i'r ffrwd incwm y mae awdurdodau yn ei chael gan breswylwyr cartrefi gofal sy'n cael cymorth.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio

7.2.7. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y rheoliadau diwygio er mwyn cynyddu'r isafswm incwm o'i lefel bresennol, sef o £44.65 yr wythnos, i £46.35 yr wythnos. Byddai hyn yn caniatáu i breswylwyr sy'n cael cymorth gan awdurdodau lleol gadw codiad ar sail chwyddiant o 3.8% i'w wario ar eitemau personol fel y mynnant.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio - Costau

7.2.8. Mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai awdurdodau lleol yn cael cynnydd llai mewn incwm ffioedd, na phe na bai'r rheoliadau yn cael eu gwneud. Byddai'r swm oddeutu £5.7 miliwn y flwyddyn drwy gyfraniadau gan y 16,144 o breswylwyr dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn unig. Byddai hyn o ganlyniad i'r incwm uwch a fyddai gan breswylwyr yn sgil y codiadau yn swm pensiynau y wladwriaeth. Byddai preswylwyr yn cadw cyfran o'r codiad hwn (oddeutu £1.4 miliwn y flwyddyn gyda'i gilydd) i'w wario ar eitemau personol fel y mynnant. Nid oes unrhyw gostau gweithredu i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gwneud y diwygiadau a amlinellir.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio - Manteision

7.2.9. Mae'r opsiwn hwn yn rhannu'r incwm uwch y byddai preswylwyr sy'n cael cymorth gan awdurdod lleol yn ei gael o fis Ebrill 2026 ymlaen yn sgil codiadau i'w symiau pensiwn y wladwriaeth. Byddai preswylwyr yn y sefyllfa hon yn gallu cadw £1.70 yr wythnos o'r codiad hwn i'w wario ar eitemau personol, tra byddai'r awdurdodau yn cael y balans mewn cyfraniadau uwch gan breswylwyr tuag at gostau eu gofal. Yn ogystal, byddai cynnydd yn yr isafswm incwm yn sicrhau nad yw gwerth yr isafswm incwm yn cael ei erydu mewn termau real.

## 7.3. Casgliad

7.3.1. Gan ystyried y fantais ariannol a brofir gan breswylwyr cartrefi gofal, gan hefyd alluogi awdurdodau lleol i gael cynnydd mewn refeniw i'w ddefnyddio tuag at y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu neu'n eu comisiynu, ac at ansawdd y gofal a'r cymorth hwnnw, argymhellir "Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio". O ganlyniad, bydd awdurdodau lleol yn cael cynnydd mewn incwm ffioedd gofal preswyl o oddeutu £5.7 miliwn y flwyddyn gan breswylwyr cartrefi gofal sy'n cael cyfradd sylfaenol pensiwn y wladwriaeth yn unig. Bydd hefyd yn sicrhau y bydd preswylwyr cartrefi gofal sy'n cael pensiynau o'r fath yn gallu cadw, gyda'i gilydd, tua £1.4 miliwn y flwyddyn i'w wario fel y mynnant.

# CYNLLUNIAU CYMORTH ARIANNOL

## 7.4. Opsiynau a Manteision

7.4.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y newidiadau hyn:

- Opsiwn 1 – "gwneud dim" a pheidio â gwneud y rheoliadau diwygio;
- Opsiwn 2 – "gwneud y rheoliadau diwygio" er mwyn cyflwyno diystyriad newydd i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol er mwyn sicrhau nad yw'n ofynnol

i dderbynwyr taliadau, a wneir o dan y cynllun a enwir, ddefnyddio'r taliadau hyn tuag at gostau eu gofal a'u cymorth. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

7.5. **Y cefndir**

7.5.1. Mae swyddogion wedi cael gwybod am gynllun cydnabyddiaeth ariannol, sydd wedi ei gydnabod gan Lywodraeth y DU yn niweddariadau 2025/26 i'w trefniadau gosod ffioedd, y mae angen ei gydnabod yn y Rheoliadau Asesiad Ariannol. Fel arfer, mae cynlluniau yn ddarnau newydd o ddeddfwriaeth a gyflwynir gan lywodraethau eraill y DU, neu Lywodraeth Cymru, sy'n gwneud taliadau i unigolion neu aelwydydd, neu ddyfarniadau ariannol i unigolion sydd wedi wynebu niwed, camdriniaeth neu anaf ac sydd i gael taliadau i gydnabod eu dioddefaint.

7.5.2. Y cynllun o dan sylw yw'r digollediad am gamweinyddiad cyfiawnder o dan adran 133(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, neu unrhyw daliad arall a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Gyfiawnder, at y diben o ddigolledu person am gamweinyddiad cyfiawnder sy'n deillio o achosion troseddol. Caiff y taliadau hyn eu gwneud pan fydd person wedi cael euogfarnu o drosedd a phan gaiff ei euogfarn ei gwrthdroi wedi hynny, neu ei fod wedi cael pardwn ar y sail bod ffaith newydd neu ffaith newydd ei ddarganfod yn dangos y tu hwnt i amheuaeth resymol bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd.

7.5.3. Mae'n ofynnol cydnabod mewn deddfwriaeth gynlluniau cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynir gan Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau, pan fo person am gael taliad o dan un o'r cynlluniau a restrir, y dylid diystyru'r taliad y mae'n ei gael wrth asesu incwm a/neu gyfalaf yn rhan o'i asesiad ariannol. Nid yw union nifer yr unigolion y bydd y diwygiadau rheoleiddiol hyn yn effeithio arnynt yn hysbys, fodd bynnag, gan ystyried natur wedi ei thargedu y cynllun cymorth ariannol a enwir, amcangyfrifir y bydd y niferoedd yn fach.

<u>Opsiwn 1 – gwneud dim</u>

7.5.4. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na chaiff newidiadau eu cymhwyso i'r mathau o gyfalaf neu incwm y mae rhaid eu diystyru'n llawn mewn asesiad ariannol unigolyn. Byddai unrhyw daliad cymorth ariannol y mae person yn ei gael o gynlluniau o'r fath yn rhan o'i adnoddau ariannol cymwys a byddai'n cael ei ystyried yn llawn wrth asesu ei allu i dalu ffioedd am ofal a chymorth.

<u>Opsiwn 1 – Costau</u>

7.5.5. Ni fyddai unrhyw oblygiadau o ran costau newydd i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Yn hytrach, byddent yn gallu ystyried swm llawn y taliadau cymorth ariannol hyn mewn asesiadau ariannol a allai arwain at unigolyn yn gorfod talu ffioedd uwch am ei ofal a'i gymorth.

<u>Opsiwn 1 – Manteision</u>

7.5.6. Nid yw'r opsiwn hwn yn rhoi unrhyw fantais i unigolion sy'n cael taliadau o'r fath, ac yn hytrach, byddai'n eu rhwystro rhag gallu elwa ar y taliadau hyn. Yn

ogystal, mae'n bosibl y gallai fod yn ofynnol i unigolion dalu ffioedd am y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt na fyddai wedi bod yn ofynnol iddynt fel arall.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio

7.5.7. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud rheoliadau diwygio fel y gall person sy'n cael unrhyw swm o gymorth ariannol yn sgil un o'r cynlluniau a enwir gadw'r swm hwnnw yn llawn ac ni chaiff ei ddefnyddio tuag at gostau ei ofal a'i gymorth.

Opsiwn 2 – Costau

7.5.8. Ni fyddai unrhyw oblygiadau o ran costau newydd i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Nid oes unrhyw gostau gweithredu i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gwneud y diwygiadau a amlinellir.

Opsiwn 2 – Manteision

7.5.9. Byddai'r opsiwn hwn yn diystyru gwerth llawn taliadau cydnabyddiaeth ariannol a roddir i berson o'r cynllun a enwir. O ganlyniad, byddent yn elwa'n llawn ar y taliadau a ddyfernir fel y'u bwriadwyd.

### 7.6. Casgliad

7.6.1. Gan ystyried y ffaith y bwriedir i daliadau a wneir o dan y cynllun cydnabyddiaeth ariannol newydd gael eu gwneud i bersonau fel digollediad am gamweinyddiad cyfiawnder, argymhellir Opsiwn 2 – "gwneud y rheoliadau diwygio" yn opsiwn priodol ac angenrheidiol o dan amgylchiadau o'r fath.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

| Prawf Hidlo Cystadleuaeth | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ateb |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddent |
| C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw newid technolegol sydyn yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i fonitro swyddogaethau'r Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau wrth roi'r rheoliadau diwygio hyn ar waith.

9.2. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau diwygio o ran meysydd megis y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Pobl Hŷn a Chydraddoldeb.